

---

# YMATEB I'R RHAI SY'N CYFLWYNO RISG

---

FI DYDDIAD  
YR EGLWYS YNG NGHYMRU  
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

## Tabl cynnwys

Ymateb i'r Rhai sy'n Cyflwyno Risg .....	2
Gweithredu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cytundebau Diogelu.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Beth yw Cytundeb Diogelu?.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Pryd mae angen rhoi Cytundeb Diogelu ar waith? .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Pam mae Cytundebau Diogelu yn bwysig? .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Pwy sydd angen bod yn rhan o'r gwaith o roi cytundeb diogelu ar waith?.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cyfarfodydd Cytundeb Diogelu.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cynnwys a Rheoli Cytundeb Diogelu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Adolygu Cytundeb Diogelu .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Hyd y Cytundeb Diogelu.....	7
Trosglwyddo Cytundebau Diogelu .....	7
Beth os bydd unigolyn yn symud i eglwys newydd?.....	7
Cymorth i Oroeswyr .....	8

## Ymateb i'r Rhai sy'n Cyflwyno Risg

Mae'r eglwys Gristnogol yn unigryw yn y ffaith ei bod hi'n agor ei drysau i bawb gan ei bod yn seiliedig ar neges ddigyfaddawd yr efengyl.<sup>1</sup>

Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd y rheiny sydd ag euogfarnau troseddol am droseddau rhywiol neu dreisgar a mathau eraill o gam-drin yn mynychu'r eglwys. Yn ogystal, efallai y bydd yna eraill heb euogfarnau na rhybuddion ond y gellir eu hystyried, am resymau cadarn, yn risg i eraill. Lle gall pobl beri risg i eraill, dylid asesu eu sefyllfa mewn cynulleidfa yn ofalus ac yn sensitif a gwneud trefniadau i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu lliniaru neu eu rheoli'n briodol. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n ymwneud nid yn unig â monitro ymddygiad yr unigolyn ond hefyd am gynnig cymorth i'r unigolyn dan sylw fyw bywyd cyflawn. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae gan yr Eglwys rôl bwysig o ran cyfrannu at atal camdriniaeth yn y dyfodol.

Dyma rai enghreifftiau o'r risg y gallai unigolion ei achosi:

- troseddau rhywiol yn erbyn plant a/neu oedolion, gan gynnwys troseddau sy'n ymwneud â delweddau anwedus o blant
- troseddau treisgar yn erbyn plant a/neu oedolion, gan gynnwys troseddau sy'n ymwneud â thrais yn y cartref yn erbyn menywod a thrais ar sail rhywedd
- cam-drin ariannol, megis targedu oedolion sy'n agored i niwed er budd ariannol (e.e., gofyn am arian, derbyn 'rhoddion' mawr neu gynnig gwneud gwaith ar gyfradd eithafol)

Mae angen i'r Eglwys yng Nghymru sicrhau bod gofal ac amddiffyniad plant, oedolion sy'n agored i risg a chymuned ehangach yr eglwys yn cael blaenoriaeth tra bod anghenion ysbrydol y person sy'n peri pryder yn cael sylw dyledus er diogelwch a lles pobl eraill.

## Gweithredu

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol os bydd unrhyw un o'r canlynol yn mynychu eglwys neu'n mynegi diddordeb mewn cyfranogi mewn addoliad mewn eglwys:

- Unrhyw un sy'n datgelu euogfarn am drosedd rywiol neu dreisgar
- Unrhyw un sy'n cyfaddef ei fod wedi cam-drin gan gynnwys cam-drin nad yw'n ddiweddar
- Unrhyw un sy'n adrodd ei fod yn destun ymchwiliad i amheuaeth o gam-drin

Gall yr awdurdodau statudol hefyd hysbysu Swyddogion Diogelu'r Dalaith bod troseddwr a gollfarnwyd yn cael ei ryddhau o'r carchar neu ei adleoli mewn ardal benodol ac wedi mynegi dymuniad i fynychu'r eglwys. Yn y sefyllfaoedd hyn, bydd rheolwyr troseddwr yn yr heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf yn cynghori ar lefel y risg ac yn gweithio gyda Swyddog Diogelu'r Dalaith i drafod yr amgylchiadau lle byddai'n briodol i'r troseddwr fynychu'r eglwys. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â'r periglor neu'r offeiriad â gofal yn y lle cyntaf ac yn cynnwys aelodau eraill o'r eglwys fel y bo'n briodol. Bydd gofal arbennig yn cael ei gymryd mewn sefyllfa lle mae dioddefwr hysbys neu oroeswr camdriniaeth neu niwed dan law'r troseddwr yn mynychu'r un eglwys, ac os felly gellid disgwyl i'r troseddwr addoli mewn man arall.

---

<sup>1</sup> <https://thirtyoneeight.org/get-help/resources/practice-guides-text/sex-offenders-in-the-church/>

Dylid cofio nad yw'n bosibl atal plwyfolion rhag mynychu gwasanaeth dwyfol, oni bai bod hwn yn amod sydd wedi'i gynnwys mewn gorchymyn llys neu mewn amodau trwydded pan gaiff ei ryddhau o'r carchar. Fodd bynnag, mae'n bosibl i wardeiniaid eglwys ddweud wrth rywun lle i eistedd, rhoi mesurau ar waith i oruchwylio ei gyfranogiad yn y gwasanaeth a gofyn i'r person adael os yw'n achosi aflonyddwch, ac os felly gellid gofyn i'r heddlu ddarparu cymorth. Mae'n bosibl gwrthod mynediad i weithgareddau eraill yr eglwys, gan gynnwys lluniaeth yn dilyn gwasanaeth, digwyddiadau cymdeithasol gan yr eglwys, cyngherddau a chanu mewn côr neu ganu clychau.

Pan fydd unrhyw un y nodwyd ei fod yn peri risg wedi nodi dymuniad i fynychu gwasanaethau eglwysig neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau eraill gan eglwys, fel arfer mae'n bosibl caniatáu'r cais yn dilyn asesiad risg ac ar ôl llunio cynllun rheoli risg o'r enw cytundeb diogelu.

## Cytundebau Diogelu

Dylid rhoi Cytundeb Diogelu ar waith pryd bynnag y nodir bod aelod o gynulleidfa yn peri risg i blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg. Gall hyn fod yn rhywun sydd ag euogfarn neu rybudd blaenorol am droseddau rhywiol neu dreisgar neu rywun sydd wedi cael ei arestio ond nad yw wedi bod i'r Llys eto am y troseddau hynny. Gallai hefyd fod yn rhywun nad oes ganddo euogfarn neu rybudd yn ei erbyn ond lle ceir tystiolaeth ei fod yn peri risg i eraill. Os credir bod person yn peri risg, hwyrach y bydd yn ofynnol cael cytundeb diogelu.

## Beth yw Cytundeb Diogelu?

Cytundeb ysgrifenedig wedi'i lofnodi yw Cytundeb Diogelu a wneir rhwng unigolyn a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'n nodi'r amodau ar gyfer mynychu gwasanaethau a gweithgareddau'r eglwys a chymryd rhan ym mywyd yr eglwys.

## Pryd mae angen rhoi Cytundeb Diogelu ar waith?

Bydd yr angen am gytundeb diogelu yn cael ei ystyried yr achosion canlynol:

- rhywun sydd ag euogfarn neu rybudd am droseddau rhywiol neu dreisgar a/neu wedi'i wahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland
- rhywun sy'n destun honiad o ymddygiad niweidiol neu gamdriniol sydd o dan ymchwiliad yr heddlu neu sy'n destun achos yn y llys troseddol neu sifil
- rhywun sydd wedi ei atal o'i rôl arferol fel gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr oherwydd pryderon am ei ymddygiad
- rhywun a all achosi risg bosibl i aelodau eraill yr eglwys oherwydd ei ymddygiad, waeth beth fo'i statws troseddol, gan gynnwys:
  - pan fo'r Eglwys yng Nghymru wedi derbyn gwybodaeth gan yr awdurdodau statudol sy'n nodi pryderon am ymddygiad unigolyn

- pan ymchwiliwyd i honiad o gam-drin ond nad yw'r mater wedi mynd ymlaen i'r llys, neu fod y person wedi'i ganfod yn ddiuog, ond ystyrir bod y person yn dal i beri risg
- pan dderbyniwyd cwyn yn honni ymddygiad amhriodol nad yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer erlyn troseddol
- pan fu pryderon ynghylch ymddygiad camdriniol honedig y person i bartner presennol neu flaenorol

## Pam mae Cytundebau Diogelu yn bwysig?

Mae cytundebau'n helpu i ddiogelu pawb sy'n ymwneud â bywyd yr eglwys, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Mae cytundeb hefyd yn helpu'r rhai sy'n ddarostyngedig iddo drwy sicrhau bod ganddynt berthynas gref, gefnogol ac atebol o fewn yr eglwys. Mae'r perthnasoedd atebol hyn yn helpu i leihau'r risg y byddant yn aildroseddu neu'n ymddwyn yn amhriodol.

Mae'n bwysig er mwyn diogelu cymuned yr eglwys, goroeswyr ac yn enwedig plant ac oedolion sy'n wynebu risg bod sail ymwneud person sy'n peri pryder mewn eglwys yn cael ei ddeall a'i gofnodi'n glir mewn cytundeb. Fodd bynnag, mae'r cytundeb hefyd yn bwysig er mwyn diogelu'r person sy'n peri pryder, fel nad yw'n cael ei roi mewn sefyllfaoedd lle gallai fod yn agored i gyhuddiadau neu'n agored i'r cyfle i aildroseddu.

## Pwy sydd angen bod yn rhan o'r gwaith o roi cytundeb diogelu ar waith?

Rheolir yr holl gytundebau diogelu gan Swyddog Diogelu'r Dalaith, a fydd yn cynnwys grŵp bach o bobl i oruchwylio'r contract a chefnogi'r sawl sy'n destun cytundeb yn ei ymwneud â bywyd yr eglwys. Mae cytundebau diogelu yn hynod gyfrinachol ac ni ddylid rhannu gwybodaeth y tu allan i'r grŵp hwn.

Gall aelodaeth nodweddiadol o'r grŵp gynnwys:

- y periglor neu'r offeiriad â gofal
- wardeiniaid eglwys
- swyddog diogelu ardal y weinidogaeth a/neu swyddog diogelu'r eglwys
- rheolwyr troseddwr yr heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf
- gwasanaethau cymdeithasol

Mae llofnodwyr y cytundeb yn gyfrifol am weithredu a monitro telerau'r cytundeb a sicrhau bod y sawl sy'n destun cytundeb yn cadw at yr amodau a amlinellir ynddo. Rhaid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith am unrhyw achosion o dorri'r cytundeb cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Cyfarfodydd Cytundeb Diogelu

Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cydlynu cyfarfod i sefydlu'r cytundeb diogelu. Bydd y sawl sy'n destun cytundeb a'r llofnodwyr allweddol yn mynychu'r cyfarfod i drafod y pryderon a chytuno ar delerau'r cytundeb. Caiff y cytundeb ei lofnodi a'i ddyddio, a chytunir ar ddyddiad adolygu a'i gofnodi ar y cytundeb.

Os yw'r unigolyn dan sylw yn gwrthod arwyddo'r cytundeb mae'r eglwys yn cael ei gadael gyda risg heb ei rheoli. Mae'n hanfodol bod yr Eglwys yng Nghymru yn lle mor ddiogel â phosibl er lles pawb sy'n ymwneud â bywyd yr eglwys. O ganlyniad, dylid gofyn i'r unigolyn beidio â mynychu'r eglwys hyd nes bod y cytundeb wedi'i lofnodi wedi'i roi ar waith. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â rheolwyr troseddwr yn yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, rheolwyr diogelu yn y gwasanaethau cymdeithasol a chydag asiantaethau perthnasol eraill fel sy'n ofynnol er mwyn ceisio sicrhau datrysiad.

## Cynnwys a Rheoli Cytundeb Diogelu

Gall Cytundeb Diogelu nodweddiadol gynnwys yr amodau canlynol y disgwylir i'r unigolyn gydymffurfio â nhw:

- mynychu'r eglwys ddynodedig yn unig ar gyfer gwasanaethau neu gyfarfodydd penodol
- eistedd mewn ardal benodol o'r eglwys, ar wahân i blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg
- cadw draw o rannau o'r adeilad a ddefnyddir gan blant a/neu oedolion sy'n wynebu risg
- mynychu grŵp tŷ lle nad oes plant neu oedolion sy'n wynebu risg
- gwrthod lletygarwch neu weithgareddau cymdeithasol lle mae plant neu oedolion sy'n wynebu risg yn bresennol
- byth ar eu pennau eu hunain gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg ar safle'r eglwys
- byth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg
- peidio â chymryd unrhyw rôl na swydd yn yr eglwys sy'n rhoi statws neu awdurdod i'r unigolyn neu a allai awgrymu i eraill yr ystyrir ei fod yn rhywun y gellir ymddiried ynddo

Dylai cytundebau hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer gofal bugeiliol y tu allan i'r gwasanaethau y cytunwyd arnynt.

Rhaid rhoi gwybod i'r sawl sy'n destun cytundeb ar y dechrau y bydd gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol a risg yn cael ei rhannu â phobl benodol yn yr eglwys y bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r amgylchiadau perthnasol er mwyn amddiffyn y plant a'r oedolion sy'n wynebu risg dan eu gofal. Mewn rhai sefyllfaoedd lle mae gwrthdaro buddiannau clir, efallai y bydd y person sy'n peri pryder yn gallu gofyn am beidio â hysbysu person penodol am wybodaeth benodol, gallai hyn gynnwys lle mae perthynas gyfredol rhwng y person sy'n peri pryder a darpar lofnodwr y

cytundeb. Bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried gan Swyddog Diogelu'r Dalaith fesul achos ac yn cael eu derbyn lle y bo'n briodol.

Mae'n bwysig iawn nad oes unrhyw berson sydd ag euogfarn neu rybudd mewn perthynas â throedd rywiol neu dreisgar yn ymgymryd ag unrhyw waith gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg neu'n cael ei benodi i unrhyw swyddogaeth, swydd neu gyfrifoldeb neu'n ymwneud ag unrhyw gontract yng nghyd-destun yr Eglwys yng Nghymru heb asesiad risg trylwyr. Dylid atal troseddwr o'r fath hefyd rhag cael mynediad i weithgareddau eglwysig penodol eraill heb drefniadau arbennig a oruchwylir gan Swyddog Diogelu'r Dalaith (e.e. gweithgareddau côr a chanu clychau).

Mae gan wardeiniaid eglwys rôl bwysig o ran gweithredu a monitro cytundebau diogelu. Gall y wardeiniaid gyfeirio plwyfolion at le i eistedd ac mae ganddynt ddyletswydd i gynnal trefn dda mewn gwasanaeth dwyfol. Os oes angen, gall wardeiniaid eglwys daflu allan unrhyw berson sy'n creu aflonyddwch, er y dylid bod yn ofalus wrth arfer pŵer o'r fath. Os rhagwelir 'aflonyddwch' neu os bydd rhywun yn gwrthod gadael yr eglwys pan ofynnir iddo, dylid hysbysu'r heddlu a gofyn iddynt fod yn bresennol.

Dylid rhoi gwybod yn fuan i Swyddog Diogelu'r Dalaith am unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio neu dorri cytundeb diogelu a bydd yn cael sylw fesul achos, mewn ymgynghoriad â rheolwyr troseddwr o'r heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf a phartneriaid perthnasol eraill. Gall torri cytundeb yn sylweddol arwain at yr angen am gytundeb diwygiedig neu ofyn i'r unigolyn roi'r gorau i fynychu'r eglwys.

Mae cynnwys cytundeb diogelu yn gyfrinachol iawn, ac ni ddylid rhannu gwybodaeth ynddo gydag unrhyw un nad yw'n llofnodwr y cytundeb heb ganiatâd penodol Swyddog Diogelu'r Dalaith.

## Adolygu Cytundeb Diogelu

Dylai pob cytundeb diogelu gael ei adolygu bob deuddeg mis gan Swyddog Diogelu'r Dalaith. Pan nad oes unrhyw bryderon ac nad oes angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r cytundeb presennol, yna efallai na fydd angen cynnal cyfarfod ffurfiol. Mewn ymgynghoriad â'r heddlu a/neu'r gwasanaeth prawf, periglor/offeiriad â gofal ac eraill arwyddocaol, gellid cytuno bod y cytundeb presennol yn parhau. Bydd cyfle i'r sawl sy'n destun cytundeb gymryd rhan yn y broses adolygu. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Ni ddylai unrhyw gytundeb presennol fynd y tu hwnt i dair blynedd heb gynnal Cyfarfod Adolygu Cytundeb ffurfiol, dan arweiniad Swyddog Diogelu'r Dalaith.

Bydd y cytundeb hefyd yn cael ei adolygu'n ffurfiol yn dilyn newid mewn amgylchiadau, a all gynnwys:

- newid clerig
- diffyg cydymffurfiaeth â'r cytundeb presennol
- amrywiad yn statws MAPPA<sup>2</sup> y troseddwr
- tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach
- nodi ffactorau risg newydd

---

<sup>2</sup> Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd yn sicrhau bod troseddwr treisgar a rhywiol yn cael eu rheoli.

## Hyd y Cytundeb Diogelu

Bydd cytundebau diogelu yn cynnwys dyddiad gorffen sy'n destun adolygiad. Bydd unigolion ag euogfarn sy'n destun cytundeb diogelu yn cael gwybod y bydd y cytundeb ar waith am gyfnod o amser heb fod yn llai na hyd unrhyw amodau trwydded a osodir gan y llys, gorchymyn, cofrestrriad, gofyniad hysbysu neu gyfyngiad arall, gan gynnwys lle gallai hyn fod yn gyfnod amhenodol. Pan fydd y cytundeb yn cael ei lunio yn absenoldeb euogfarn, bydd hyd y cytundeb yn cael ei sefydlu pan fydd y cytundeb yn cael ei sefydlu. Mewn rhai achosion, bydd cytundeb yn fesur dros dro hyd nes y daw ymchwiliad neu erlyniad i ben a bydd yn dod i ben yn dilyn adolygiad os nodir nad yw'r unigolyn yn cyflwyno risg. Fel arall, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol lle ceir tystiolaeth annibynnol glir yn ymwneud â lefel y risg, y rhoddir ystyriaeth i ddod â chytundeb i ben cyn y dyddiad y cytunwyd arno. Fodd bynnag, mae gan unigolyn sy'n destun cytundeb hawl i gyflwyno cais i Swyddog Diogelu'r Dalaith i'r cytundeb gael ei adolygu.

Gall unrhyw unigolyn sy'n destun cytundeb diogelu wneud cais i adolygu'r angen i gael cytundeb. Gall y person wneud cais i Swyddog Diogelu'r Dalaith am benderfyniad y gellir dod â'r cytundeb i ben neu y gellir llacio neu ddileu amodau penodol o fewn y cytundeb. Bydd y cais yn cael ei ystyried gan Swyddog Diogelu'r Dalaith mewn ymgynghoriad â llofnodwyr y cytundeb ac ar gyngor yr awdurdodau statudol a phartneriaid perthnasol eraill.

## Trosglwyddo Cytundebau Diogelu

Pan fydd periglor neu offeiriad â gofal yn gadael ardal weinidogaeth neu ardal genhadaeth lle mae cytundeb diogelu ar waith, mae'n bwysig bod gwybodaeth am y cytundeb yn cael ei throsglwyddo i'r periglor/offeiriad newydd â gofal neu i'r person sy'n gyfrifol yn ystod interregnum. Mae angen i'r trosglwyddiad hwn ddigwydd cyn gynted ag y bydd y periglor neu'r offeiriad newydd sy'n gyfrifol yn ymgymryd â'i swydd. Mae'r clerig sy'n gadael ei swydd yn gyfrifol am rybuddio Swyddog Diogelu'r Dalaith perthnasol am newid personél.

Yn yr un modd, dylid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Dalaith am unrhyw newidiadau eraill i lofnodwyr y cytundeb cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Beth os bydd unigolyn yn symud i eglwys newydd?

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalaith os bydd unigolyn sy'n destun cytundeb diogelu yn symud i eglwys newydd o fewn yr Eglwys yng Nghymru neu i enwad arall. Mae llofnodwyr y cytundeb yn gyfrifol am sicrhau bod y newid yn yr eglwys yn cael ei adrodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd Swyddog Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â'r awdurdodau statudol i ystyried pa wybodaeth y dylid ei rhannu â'r eglwys newydd.



## Cymorth i Oroeswyr

Efallai y bydd dioddefwyr a goroeswyr yng nghymuned yr eglwys. Mewn rhai achosion, bydd pobl sydd wedi profi niwed neu gamdriniaeth gan berson sy'n destun cytundeb diogelu yn yr un eglwys. Mewn achosion eraill, bydd rhywun sydd wedi dioddef neu oroesi camdriniaeth gan gyflawnwyr eraill, gan gynnwys cam-drin nad yw'n ddiweddar. Efallai na fydd aelodau eraill o'r eglwys yn gwybod pwy ydyn nhw am nad ydyn nhw efallai wedi teimlo eu bod yn gallu adrodd eu stori.

Mae sut mae'r eglwys yn ymateb i droseddwr yn effeithio ar sut mae dioddefwyr a goroeswyr yn teimlo am eu lle yn yr eglwys. Gall dioddefwyr a goroeswyr mewn cynulleidfaoedd lle caniateir i droseddwr gymryd rhan lawn ym mywyd cymuned yr eglwys deimlo nad yw eu poen nhw wedi cael ei glywed na'i gydnabod a gall fod yn anodd iawn iddynt aros fel aelod o'r un gynulleidfa a hyd yn oed yn anoddach disgwyl iddynt gymryd rhan yn yr un addoliad neu weithgareddau. Efallai y bydd rhai dioddefwyr a goroeswyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt adael y gynulleidfa neu hyd yn oed roi'r gorau i'w ffydd.

Er bod gofal bugeiliol i droseddwr yn amlwg yn rhywbeth y mae'n rhaid i Gristnogion fynd i'r afael ag ef, mae gofal bugeiliol dioddefwyr a goroeswyr yn aml wedi cael ei anwybyddu neu ei esgeuluso ac mae llawer o ddioddefwyr a goroeswyr wedi teimlo eu bod ar eu pen eu hunain ac wedi'u hanghofio. Os caiff trosedd ei drin yn ysgafn neu os caiff troseddwr ei adfer yn gyflym i swyddi cyfrifol ac o awdurdod, gall hyn ymddangos fel pe bai'n dibrisio arwyddocâd profiad dioddefwr neu oroeswr.

Dylai eglwysi wneud beth bynnag y gallant i gynnig gofal bugeiliol effeithiol a chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth ac i ddangos bod troseddwr hysbys yn cael eu rheoli i leihau'r risg o unrhyw niwed pellach.

Gellir cyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at Fannau Diogel<sup>3</sup> neu Lwybrau Newydd<sup>4</sup> i gael cymorth.

Dylid hysbysu Swyddog Diogelu'r Dalait os bydd unrhyw un yn datgelu ei fod yn ddioddefwr neu'n goroesi camdriniaeth ac am drafod ei brofiadau.

---

<sup>3</sup> <https://www.victimsupport.org.uk/more-us/why-choose-us/specialist-services/safe-spaces/>

<sup>4</sup> <http://www.daffodilcymru.org.uk/>